***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017, Paragraff 18. (See end of Document for details)*

## ATODLEN 11 E+W

## RHYDDHAD BONDIAU BUDDSODDI CYLLID ARALL

### **RHAN 5** E+W

### ATODOL

*Disodli ased*

18 (1) Mae paragraffau 13 i 16 yn gymwys gyda'r addasiadau a nodir yn is-baragraff (2) neu (yn ôl y digwydd) (3)—

(a) os bodlonir amodau 1 i 3 a 7 mewn perthynas â buddiant mewn tir ("y tir gwreiddiol"),

(b) os yw B yn peidio â dal y tir gwreiddiol fel ased bond (ac yn unol â hynny, yn ei drosglwyddo i A) cyn terfyn y bond buddsoddi cyllid arall,

(c) os yw A a B yn ymrwymo i drefniadau pellach sy'n bodloni amod 1 mewn perthynas â buddiant mewn tir arall ("y tir amnewid"), a

(d) os yw gwerth y buddiant yn y tir amnewid ar yr adeg y mae A yn ei drosglwyddo i B yn fwy na gwerth marchnadol y buddiant yn y tir gwreiddiol ar y dyddiad y mae'r trafodiad cyntaf sy'n ymwneud â'r tir gwreiddiol yn cael effaith, neu'n hafal â'r gwerth marchnadol hwnnw.

(2) Mewn perthynas â'r tir gwreiddiol, nid oes angen bodloni amod 6 os bodlonir amodau 1, 2, 3, 6 a 7 (fel y'u haddesir gan is-baragraff (3)) mewn perthynas â'r tir amnewid.

(3) O ran y tir amnewid—

(a) mae amod 5 yn gymwys fel pe bai'r cyfeiriad at y buddiant mewn tir yn gyfeiriad at y buddiant yn y tir gwreiddiol, a

(b) mae amod 7 yn gymwys fel pe bai'r cyfeiriad ym mharagraff 12(b) at y trafodiad cyntaf yn gyfeiriad at y trafodiad cyntaf sy'n ymwneud â'r tir gwreiddiol.

(4) Os yw'r tir amnewid yng Nghymru, mae'r tir gwreiddiol yn peidio â bod yn ddarostyngedig i'r pridiant tir a gofrestrwyd yn unol ag amod 4 pan fo—

(a) B yn darparu'r dystiolaeth ragnodedig i ACC bod amod 7 wedi ei fodloni mewn perthynas â'r tir gwreiddiol, a

(b) amod 4 wedi ei fodloni mewn perthynas â'r tir amnewid.

(5) Os nad yw'r tir amnewid yng Nghymru, mae'r tir gwreiddiol yn peidio â bod yn ddarostyngedig i'r pridiant tir a gofrestrwyd yn unol ag amod 4 pan fydd B yn darparu'r dystiolaeth ragnodedig i ACC bod—

(a) amod 7 wedi ei fodloni mewn perthynas â'r tir gwreiddiol, a

(b) pob un o amodau 1 i 3 wedi eu bodloni mewn perthynas â'r tir amnewid.

(6) Mae'r paragraff hwn hefyd yn gymwys pan fo'r tir amnewid yn cael ei ddisodli gan dir cyfnewid pellach; ac os digwydd hynny—

(a) mae cyfeiriadau at y tir gwreiddiol (ac eithrio'r rheini yn is-baragraff (3)) i'w darllen fel cyfeiriadau at y tir amnewid, a

(b) mae cyfeiriadau at y tir amnewid i'w darllen fel cyfeiriadau at y tir amnewid pellach.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Atod. 11 para. 18 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 81(2)**

**I2** Atod. 11 para. 18(1)-(3), (4)(b)(6) mewn grym ar 1.4.2018 gan O.S. 2018/34, **ergl. 3**

**I3** Atod. 11 para. 18(4)(a)(5) mewn grym ar 18.10.2017 at ddibenion penodedig gan O.S. 2017/953, **ergl. 2(e)(iv)**

**I4** Atod. 11 para. 18(4)(a)(5) mewn grym ar 1.4.2018 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym gan O.S. 2018/34, **ergl. 3**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017, Paragraff 18.